## RHYBUDD o Benderfyniadau'r cyfarfod rhithiol o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 3 Mawrth, 2021

***[Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig, a bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo.***

***Mae'r dogfennau ar gyfer y cyfarfod uchod ar wefan y Cyngor ynghyd â gweddarllediad o'r gweithgareddau].***

| | |
|---|---|
| **Presennol** | Cynghorydd Nicola Roberts (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Richard Owain Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr John Griffith, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Eric Wyn Jones, Dafydd Roberts a Robin Williams.<br><br>Cynghorydd Richard A Dew – Aelod Portffolio – Cynllunio. |
| **Ymddiheuriadau** | Dim |
| **Hefyd yn bresennol:** | Aelodau Lleol: Cynghorwyr Dafydd R Thomas (cais 7.1); Margaret M Roberts ac Ieuan Williams (cais 7.2); R Meirion Jones (cais 7.3); Llinos M Huws (cais 11.1); Alun Roberts (cais 12.3).<br><br>Cynghorwyr Bryan Owen a Bob Parry OBE FRAgS. |

1.00 o'r gloch - 2.10 o'r gloch yp

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 COFNODION** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cadarnhawyd fod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 10 Chwefror, 2021 yn gofnod cywir ar ôl gwneud un cywiriad ar Dudalen 5 – cais 7.2 – 'Cyfeiriodd y Cynghorydd K P Hughes ....... Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd gan y Cyngor hwn ac ni fydd cyfleoedd i adolygu'r cynllun yn bosibl am nifer o flynyddoedd ...':-<br><br>• Dileu'r geiriau *'......... nifer o flynyddoedd'*<br>• Cynnwys *'..... cyn belled â gwneud newidiadau i'r cynllun, nid ydym wedi cyrraedd yr amser i alluogi ni i wneud hynny'*. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 YMWELIAD SAFLEOEDD** |
| PENDERFYNIAD | Nid ystyriwyd unrhyw ymweliadau safle yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 SIARAD CYHOEDDUS** |
| PENDERFYNIAD | Roedd siaradwyr cyhoeddus yn bresennol mewn perthynas â cheisiadau 7.1 a 12.3. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO** |
| PENDERFYNIAD | **6.1 FPL/2020/247 – Cais llawn ar gyfer codi 9 annedd ynghyd â gwaith cysylltiedig ar dir ger Stad Y Bryn, Llanfaethlu**<br><br>**PENDERFYNWYD cynnal ymweliad safle yn unol ag argymhelliad y Swyddog yn yr adroddiad.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 CESIADAU'N CODI** |
| PENDERFYNIAD | **7.1 FPL/2020/195 – Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu gan gynnwys ardal wedi'i decio, gwaith cysylltiedig a mesurau lliniaru yn Sea Shanty Café, Lon St. Ffraid, Trearddur**<br><br>**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais ac ar ôl i'r cyfnod ymgynghori statudol ddod i ben, awdurdodi'r Swyddog i weithredu ar y dystysgrif berchnogaeth ddiwygiedig, Asesiad Canlyniadau Llifogydd atodol a Datganiad ar yr Iaith Gymraeg.**<br><br>**7.2 FPL/2019/217 – Cais llawn ar gyfer codi 17 o anheddau fforddiadwy, adeiladu dwy fynedfa newydd ar gyfer cerbydau a 3 mynedfa amaethyddol newydd, gosod gorsaf bwmpio ynghyd â gwaith tirlunio meddal a chaled ar dir ger Stad Craig y Don a Cherry Tree Close, Benllech**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau a gynhwysir yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |

| | |
|---|---|
| | **7.3 VAR/2020/66 – Cais o dan Adran 73 i dynnu amod (10) (Sgrin gwydr aneglur) o ganiatâd cynllunio rhif FPL/2019/134 (Codi 8 fflat) yn yr Hen Ysgol Gynradd, Ffordd Pentraeth, Porthaethwy**<br><br>**PENDERFYNWYD cadarnhau'r penderfyniad blaenorol i wrthod y cais.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 CEISIADAU ECONOMAIDD** |
| PENDERFYNIAD | Nid ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 CEISIADAU AM DY FFORDDIADWY** |
| PENDERFYNIAD | Nid ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 CEISIADAU'N GWYRO** |
| PENDERFYNIAD | Nid ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION** |
| PENDERFYNIAD | **11.1 FPL/2021/7 – Cais llawn ar gyfer cadw a chwblhau'r sied amaethyddol ynghyd â gosod ffos gerrig ar dir yn Prysan Fawr, Bodedern**<br><br>**PENDERFYNWYD ymweld â'r safle ar gais yr aelod lleol am y rhesymau a roddwyd.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 GWEDDILL Y CEISIADAU** |
| PENDERFYNIAD | **12.1 FPL/2021/1 – Cais llawn ar gyfer newid defnydd adeilad rhestredig i fod yn 4 fflat llety cymdeithasol ynghyd ag addasiadau ac estyniadau ym Mhlas Alltran, 3 Ffordd Turkey Shore, Caergybi** |

| | |
|---|---|
| | **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau a gynhwysir yn yr adroddiad ysgrifenedig, ar ôl cytuno ar fesurau lliniaru derbyniol i roi sylw i wrthwynebiadau Cyfoeth Naturiol Cymru.**<br><br>**12.2 LBC/2021/1 - Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer trosi adeilad rhestredig sydd wedi'i adael i fod yn 4 fflat llety cymdeithasol, dymchwel rhan o'r adeilad a chodi estyniad yn ei le ynghyd â gwaith allanol a mewnol ym Mhlas Alltran. Ffordd Turkey Shore, Caergybi**<br><br>**PENDERFYNWYD cyfeirio'r cais at Lywodraeth Cymru am Ganiatâd Adeilad Rhestredig.**<br><br>**12.3 FPL/2020/164 - Cais llawn ar gyfer newid defnydd yr adeilad allanol i lety gwyliau ynghyd â gwaith addasu ac ehangu ym Mwthyn Penmon, Biwmares**<br><br>**PENDERFYNWYD ymweld â'r safle ar gais yr aelod lleol am y rhesymau a roddwyd.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 MATERION ERAILL** |
| PENDERFYNIAD | Nid ystyriwyd unrhyw faterion eraill yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |